



# **CRAFFU ER MWYN GWELLA**

**STRATEGAETH CRAFFU 2014-2017**

## PAM?

Pwrpas y Strategaeth yma yw gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu gwaith craffu Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 2017. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer craffu, a'r amcanion hynny y ceisir eu cyflawni er mwyn sicrhau atebolrwydd y Cyngor yn gyhoeddus, ynghyd â bod yn gyfrwng i wella gwasanaethau i ddefnyddwyr a dinasyddion y sir.


Mae gan y broses graffu gyfraniad allweddol i'w wneud yn y broses o hyrwyddo gwelliannau, effeithlonrwydd a chydweithio ledled y gwasanaethau cyhoeddus. Daw hyn yn gynyddol bwysig wrth ymateb i her y sefyllfa ariannol a cheisio gwella gwasanaethau yn barhaus ar yr un pryd, ac wrth ddatblygu trefniadau cyd-graffu effeithiol ar gyfer partneriaethau, a chydweithrediadau newydd a rhai sy'n datblygu.

Prif fwriad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yw cryfhau rôl cynghorwyr. Mae gan bob aelod etholedig gyfraniad pwysig, ac mae'n bwysig bod yr aelodau nad ydynt yn rhan o'r Weithrediaeth (Cabinet) yn ymwybodol o'r rôl hanfodol sydd ganddynt i graffu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dwyn i gyfrif. Mae hyn yn bwysig er mwyn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn atebol, yn effeithiol ac effeithlon.

## Nod Cyngor Gwynedd

Prif bwrpas y Cyngor, fel y mae wedi ei fynegi yn ei Gynllun Strategol, yw "Cefnogi Pobl Gwynedd i Ffynnu Mewn Cyfnod Anodd" ac mae'n gwneud hynny yn bennaf trwy ei fusnes arferol, sef y gwasanaethau hynny a ddarperir yn ddyddiol i ddefnyddwyr a dinasyddion.

Mae'r nod hwn yn llywio gwaith y Cyngor ar bob lefel, gyda'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am osod cyfeiriad i waith y Cyngor, yr Aelodau Cabinet yn gyfrifol am berfformiad a chyflawni, a'r pwyllgorau craffu yn dal yr Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad, ac yn craffu effaith polisïau a gwasanaethau ar ddefnyddwyr a dinasyddion Gwynedd.



Fe welir o'r darlun hwn bod y gwahanol elfennau o drefniadau llywodraethu'r Cyngor i gyd yn cyfrannu at 'Gefnogi Pobl Gwynedd i Ffynnu Mewn Cyfnod Anodd'. Mae Craffu yn rhan allweddol o'r trefniadau hynny sydd yn sicrhau atebolrwydd a her annibynnol wrth i'r Cyngor weithio tuag at sicrhau hynny.

### **Lle ydym ni ar hyn o bryd?**

Mae trefniadau craffu Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhai da wrth i'r gyfundrefn ddatblygu, gyda chydabyddiaeth o ymarfer da o ran perchnogaeth aelodau dros raglenni gwaith, cydweithio da gyda'r trydydd sector, a threfniadau paratoi cadarn.

Fodd bynnag, ym Mai 2012 symudodd y Cyngor i drefn Cabinet a oedd yn golygu newid i drefniadau craffu'r Cyngor. Roedd y symudiad i drefniadau Cabinet yn cadarnhau cyfrifoldeb y Weithrediaeth dros berfformiad gwasanaethau, a hefyd dros bolisïau'r gwasanaethau hynny.

Yn sgil y datblygiadau hyn mae'r trefniadau craffu wedi gorfod newid. Bellach, gosodir mwy o bwyslais ar effaith polisïau ar drigolion, a datblygwyd cyfundrefn o ymchwiliadau sydd yn galluogi aelodau craffu i ymchwilio mewn manylder i feysydd, a chyflwyno argymhellion er mwyn gwella polisïau a gweithrediad. Bydd y Strategaeth hon yn adeiladu ar y seiliau hyn.

Yn ystod 2013, gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, cynhaliwyd Arolwg Craffu a oedd yn caniatáu i gynghorau gynnal hunanasesiad o'u trefniadau a hefyd i gynghorau eraill edrych ar drefniadau cynghorau cyfagos i weld beth y gellir ei wella a'i ddysgu.

Roedd yr asesiad a oedd yn codi o'r gwaith yn dod i gasgliad i ba raddau yr oedd trefniadau cynghorau unigol yn cefnogi craffu effeithiol. Y prif ganlyniadau ar gyfer Cyngor Gwynedd oedd bod ei drefniadau i gyd naill ai yn cefnogi craffu yn rhannol, neu yn gadarnhaol, gyda'r trefniadau yn raddol gynyddu statws a phwysigrwydd craffu o fewn y Cyngor. Y prif bwyntiau a wnaethpwyd gan y cymheiriaid a fu'n edrych ar waith craffu'r Cyngor oedd:-

- i.) Mae'r patrwm o weithio trwy ymchwiliadau craffu yn un addawol iawn sydd yn cynnig dull o fynd i'r afael â materion mewn dyfnder gyda golwg ar argymhellion i wella
- ii.) Mae'n ymddangos bod dealltwriaeth a pharch amlwg rhwng y Craffwyr a'r Weithrediaeth am y swyddogaethau gwahanol
- iii.) Mae Gwynedd wedi pwysleisio fwy ar atebolrwydd aelodau ac, o bersbectif cynghorau eraill, efallai bod lle i wneud atebolrwydd swyddogion yn fwy amlwg
- iv.) Mae angen sicrhau cynnydd yng ngwaith rheoli perfformiad y trefniadau craffu
- v.) Mae angen gwneud mwy o waith i ddwyn sylw at y blaenraglen craffu a sicrhau sylw cyson i'w ddiweddarau
- vi.) Mae rheolaeth yr Agenda Craffu yn dda gyda dim gormod o eitemau ar y rhaglenni
- vii.) Yn gyffredinol, roedd safon y wybodaeth gyflwynwyd yn dda

At hyn, mae *Comisiwn Williams* wedi tynnu cryn sylw at werth ymgysylltu a sicrhau llais y dinesydd fel elfen hanfodol o:

- i.) lywodraethu da
- ii.) wella cadernid craffu
- iii.) wella sail asesiadau anghenion
- iv.) wella perfformiad

### **Gweledigaeth**

*Gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer y Strategaeth Craffu yma yw: Cyngor a gaiff ei gydnabod am ddal ei hunan ac eraill i gyfrif gan leihau dibynniaeth ac ymyrraeth gan reoleiddwyr.*

Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r weledigaeth hon, adnabu'r Cyngor dri o amcanion gwella ar gyfer craffu i'w cyflawni yn ystod y cyfnod, sef:

- i.) Gwell gwasanaethau - atebolrwydd democrataidd sydd yn gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus
- ii.) Gwell penderfyniadau - y broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn (gwell penderfyniadau)
- iii.) Gwell ymgysylltu - y cyhoedd yn ymwneud â'r drafodaeth ddemocrataidd ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus nawr ac i'r dyfodol.

Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.

# ATODIAD A

## Rhwydwaith Cenedlaethol Swyddogion Craffu Cymru

### Deilliannau Drafft a Nodweddion craffu effeithiol gan lywodraeth leol

<b>Deilliant</b> <i>Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?</i>	<b>Nodweddion</b> <i>Sut fydd yn edrych? Sut allwn ni ei adnabod?</i>
<p><b>1. Mae atebolrwydd democrataidd yn gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.</b></p> <p><i>“Gwell Gwasanaethau”</i></p>	<p><b>Yr Amgylchedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>i) Mae gan craffu rôl sydd wedi'i diffinio a'i gwerthfawrogi'n glir yn nhrefniadau gwelliannau'r Cyngor.</li><li>ii) Mae craffu yn cael y gefnogaeth ddigonol sydd ei hangen arni gan swyddogion sy'n gallu ymgymryd ag ymchwil annibynnol yn effeithiol a darparu dadansoddiad, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i aelodau craffu.</li></ul> <p><b>Arferion</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>iii) Mae ymholiadau trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn ymgorffori amrediad eang o dystiolaeth a safbwyntiau.</li></ul> <p><b>Effaith</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>iv) Mae trosolwg a chraffu yn ymwneud yn rheolaidd â'r her sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr gwasanaeth.</li><li>v) Mae craffu yn darparu datrysiadau hyfyw ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda phroblemau cydnabyddedig.</li></ul>
<p><b>2. Mae gwneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.</b></p> <p><i>“Gwell penderfyniadau”</i></p>	<p><b>Yr Amgylchedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>i) Mae'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen ar aelodau craffu ganddynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.</li><li>ii) Mae'r broses yn derbyn cefnogaeth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer craffu o safon uchel ac yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson.</li></ul> <p><b>Arferion</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>iii) Mae craffu yn cael ei arwain gan aelodau ac mae ganddo 'berchnogaeth' ar ei raglen waith ei hun sy'n ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheolyddion, er ei fod yn pwysu a mesur rhwng blaenoriaethu pryderon cymunedol yn erbyn materion o risg a phwysigrwydd strategol.</li></ul>

	<p>iv) Mae'r gallu gan fudd-ddeiliaid i gyfrannu at ddatblygu a chyflwyno'r blaenraglenni gwaith craffu.</p> <p>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, yn cael eu cadeirio'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.</p> <p><b>Effaith</b></p> <p>vi) Mae aelodau anweithredol yn darparu gwiriad yn seiliedig ar dystiolaeth, a chydbwysedd i benderfyniadau a wneir gan y Weithrediaeth.</p> <p>vii) Un o gyfrifoldebau portffolio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yw bod yn atebol yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu.</p>
<p><b>3. Mae'r cyhoedd yn ymwneud â'r drafodaeth ddemocrataid d ynglŷn â'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.</b></p> <p><b><i>"Gwell ymgysylltu"</i></b></p>	<p><b>Yr Amgylchedd</b></p> <p>i) Cydnabyddir craffu gan y Weithrediaeth a'r tîm Rheoli Corfforaethol fel mecanwaith Cyngor pwysig ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus.</p> <p><b>Arferion</b></p> <p>ii) Nodweddir craffu gan gyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd, ac annog cyfranogiad iddo.</p> <p>iii) Mae craffu yn gweithredu'n anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiynau a gwrthdaro.</p> <p>iv) Mae craffu yn creu ymddiriedaeth a pherthnasau da gydag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid mewnol ac allanol.</p> <p><b>Effaith</b></p> <p>v) Mae trosolwg a chraffu yn sicrhau bod 'llais' pobl leol a chymunedau ledled yr ardal yn cael ei glywed fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisiau.</p>